


Bywryd BEICIO

2019

Caerdydd



YMUWCH Â'R MUDIAD



Llunio Llwybrau

Ein gweledigaeth ar gyfer beicio yng Nghaerdydd



Mae Caerdydd wedi gwneud cryn gynydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gan ein bod wedi dechrau ar ein rhaglen uchelgeisiol o ddatblygu isadeiledd beicio sy'n addas ar gyfer dinas yn yr 21ain ganrif.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar bum llwybr Beicffordd newydd i gysylltu cymunedau â chyrchfannau allweddol ledled y ddinas, ac mae'r rhan gyntaf o Feicffordd 1 ar Blas Sant Andreas a Heol Senghennydd nawr wedi'i gwblhau.

Rydym hefyd yn gweithio i wella llwybrau presennol pwysig, yn cynnwys y Llwybr Taf. Mae hyn wedi cynnwys creu "stryd feiciau" gyntaf Cymru, fel rhan o'r cynllun arloesol Grangetown Werddach.

Mae'r defnydd a wneir o gynllun llogi beiciau ar y stryd, Nextbike, wedi rhagori ar bob disgwyliad ers i'r cynllun lansio yn 2018, gyda mwy na 400,000 o deithiau wedi'i gwneud ar feiciau Nextbike rhwng Gorffennaf 2018 a Mehefin 2019.

Cyngor Caerdydd yw un o 14 o gyrff sector cyhoeddus sydd wedi cofrestru ar y Siarter Teithio'n Iach, gan ymrwymo i hyrwyddo cerdded a beicio ymysg ein staff a'n hymwelwyr a sicrhau bod cyfleusterau ar gael i bobl sy'n teithio i'n hadeiladau ar feic.

Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud o hyd i wynebu heriau'r argyfwng hinsawdd, tagfeydd ac ansawdd aer gwael mewn dinas ar ei thwf. Fe wnaethom lansio ein gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer teithio yn Ionawr 2020, sy'n cyflwyno cynllun uchelgeisiol ar gyfer chwyldroi opsiynau teithio yng Nghaerdydd a'r rhanbarth.

Rydym wedi dyblu'r gyfran o bobl sy'n beicio i'r gwaith dros y 10 mlynedd ddiwethaf ac rydym yn bwriadu dyblu hyn eto erbyn 2030. Er mwyn cyflawni hynny, byddwn yn cwblhau rhwydwaith beicio o safon uchel, un sy'n ddiogel ac wedi'i wahanu oddi wrth draffig yn llwyr, erbyn 2026. Byddwn hefyd yn ehangu ein cynllun Nextbike llwyddiannus, yn cefnogi ysgolion i ddatblygu cynlluniau teithio llesol i hyrwyddo cerdded, sgwtera a beicio i'r ysgol, ac rydym am gyflwyno 'Menter Strydoedd ar gyfer lechyd' i hawlio ein strydoedd yn ôl fel manau iach i bawb eu mwynhau.

Rydym hefyd eisiau gwneud Caerdydd yn ddinas 20mya, i normaleiddio cyflymdra arafach a helpu i wneud beicio ar y ffordd yn fwy diogel. Rydym wedi cyflwyno terfyn cyflymdra o 20mya ar y rhan fwyaf o'r strydoedd preswyl yn ne'r ddinas ac rydym yn ymrwymedig i gyflawni 20mya drwy'r ddinas gyfan yn y blynnyddoedd nesaf.

**Y Cyngorydd Caro Wild
Aelod Cabinet dros Gynllunio
Strategol a Thrafnidiaeth
Cyngor Caerdydd**

Cynnwys

4	Crynodeb o'r adroddiad	12	Rhwystrau
6	Gwireddu'r buddion	14	Atebion
8	Cyfranogaeth mewn beicio	17	Gwella beicio
10	Anghydraddoldeb cymdeithasol a symudedd	19	Beicio tua'r dyfodol

Cyflwyno Bywyd Beicio

Bywyd Beicio yw'r asesiad mwyaf o feicio mewn ardaloedd trefol yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Fe'i cynhelir gan Sustrans ar y cyd ag 17 o ddinasoedd a dinas-ranbarthau. Mae pob dinas* yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd y maent yn ei wneud tuag at wneud beicio'n fodd deniadol o deithio o ddydd i ddydd.

Cyhoeddir adroddiadau Bywyd Beicio bob dwy flynedd. Yn 2015 a 2017, cyhoeddwyd adroddiadau gan saith dinas. Cyhoeddodd Glasgow, Perth a Stirling eu hadroddiadau cyntaf yn 2018.

Mae pedair ardal ar ddeg yn cymryd rhan yn yr adroddiad Bywyd Beicio yn 2019. Mae hyn yn cynnwys y cyntaf o blith bwrdeistrefi Llundain, Tower Hamlets, a'n dinas gyntaf y tu allan i'r Deyrnas Unedig, Ardal Fetropolitan Dilyn.

Dyma'r trydydd adroddiad o Gaerdydd, wedi'i gynhyrchu mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd. Daw'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn o ddata beicio lleol, modelu ac arolwg annibynnol o 1,462 o drigolion 16 mlwydd oed neu hŷn yng Nghaerdydd.** Cynhaliwyd yr arolwg gan y mudiad ymchwil cymdeithasol NatCen ac mae'n gynrychioladol o drigolion Caerdydd, nid y rhai sy'n beicio'n unig.

Ceir mwy o fanylion am holl adroddiadau Bywyd Beicio yma www.sustrans.org.uk/bike-life

Diolchwn i bobl Caerdydd a gymerodd ran yn yr arolwg ac a rannodd eu straeon gyda ni.



*Defnyddir 'dinas' i ddisgrifio dinasoedd, dinas-ranbarthau a bwrdeistrefi Bywyd Beicio.

**Cynhaliwyd yr arolwg Ebrill–Gorffennaf 2019.

Crynodeb o'r adroddiad

Caerdydd

Poblogaeth*

362,756



Ardal yr arolwg

Mae pawb yn elwa pan fo mwy o bobl yn beicio

Bob dydd, mae beicio yng Nghaerdydd yn tynnu hyd at

14,000
o geir oddi ar y ffordd

Wedi'i seilio ar drigolion sy'n byw ar aelwyd gyda char yn beicio. Nid yw'n cynnwys teithiau beicio hamdden.

Bob blwyddyn, mae beicio'n:

- atal **123** o gyflyrau iechyd hirdymor difrifol
- arbed **6,500** o dunelli o allyriadau nwyon tŷ gwyr
- creu **£33.7** miliwn mewn buddion economaidd ar gyfer unigolion a'r ddinas

Mae cryn dipyn o awydd beicio yng Nghaerdydd.

Mae **22%** o drigolion yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos

Nid yw **27%** yn beicio, ond fe hoffent wneud

Mae pryderon dros ddiogelwch yn atal beicio rhag bod yn ddewis teithio dilys i nifer o drigolion

Mae llawer o drigolion yn llai tebygol o feicio'n rheolaidd, er enghraifft menywod a phobl anabl.

Fodd bynnag, mae pob grŵp eisiau i ddiogelwch beicio gael ei wella.

Cyfran o drigolion sy'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos

14% o fenywod

31% o ddynion

12% o bobl anabl

26% o bobl nad ydynt yn anabl

Cyfran o drigolion sy'n meddwl bod angen gwella diogelwch beicio

77% o fenywod

73% o ddynion

73% o bobl anabl

76% o bobl nad ydynt yn anabl

I helpu trigolion feicio mwy, mae angen gwell isadeiledd beicio arnom

Mae **80%**

yn meddwl y byddai mwy o lwybrau beicio ar hyd ffyrdd wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr yn fwy defnyddiol i'w helpu i feicio mwy

Mae **73%**

yn cefnogi adeiladu mwy o'r llwybrau hyn, hyd yn oed pan fyddai'n golygu llai o le i draffig ffordd arall**

Mae **3 milltir**

o lwybrau beicio ar hyd ffyrdd wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr yn bodoli ar hyn o bryd yng Nghaerdydd



*Amcangyfrif poblogaeth ganol blwyddyn 2017 NOMIS. Dyma'r diweddaraf sydd ar gael ar gyfer holl ardaloedd Bywyd Beicio.

**Sylwer fod y cwestiwn hwn wedi newid ers 2017 o 'gallai olygu' i 'byddai'n golygu'.

Gweler methodoleg Bywyd Beicio am fanylion pellach.

Pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E sydd yn fwyaf tebygol o ddioddef effeithiau lefelau uwch o draffig,[†] ond nhw sy'n lleiaf tebygol o fod yn berchen car

Cyfran o drigolion yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol AB neu DE sydd â char neu fan ar eu haelwyd

91% o bobl o grwpiau AB

59% o bobl o grwpiau DE

Mae peidio bod yn berchen car yn gallu cynyddu'r risg o eithrio cymdeithasol, dyled a thlodi trafniadaeth.^{††}

Nid yw **73%** o drigolion o grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E yn beicio o gwbl, ond

Hoffai **26%** ddechrau gwneud

Mae hyn yn cyfateb i **19,000** o oedolion

Mae beicio fel dull trafniadaeth yn gweddu'n wych i fywyd trefol.

Mae dinasoedd sydd wedi'u cynllunio ar gyfer beicio'n gallu helpu llawer o'u trigolion i gyrraedd gwasanaethau bob dydd a lleihau eithrio cymdeithasol ac economaidd.

Dosbarthiad yw grŵp economaidd-gymdeithasol, sydd wedi'i seilio ar alwedigaeth. Fe'i cedwir gan y Market Research Society. Grwpiau A a B yw rolau proffesiynol a rheolwyr. Grwpiau D ac E yw galwedigaethau lled-greftus a gwaith llaw heb sgiliau a phobl nad ydynt mewn gwaith.

Mae trigolion Caerdydd yn credu y buasai gwella eu strydoedd ar gyfer cerdded a beicio yn gwneud eu hardal yn le gwell i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef

Mae **66%**

yn meddwl y buasai mwy o feicio'n gwneud eu hardal yn le gwell i fyw a gweithio ynddo

Mae **66%**

yn meddwl y byddai llai o gerbydau modur ar ein strydoedd yn ddefnyddiol i'w helpu nhw i feicio mwy

Mae **76%**

yn meddwl y dylid creu mwy o le i bobl gymdeithasu, beicio a cherdded ar eu stryd fawr leol

Mae **56%**

yn meddwl y dylid cau'r strydoedd y tu allan i ysgolion lleol i geir yn ystod cyfnodau danfon a chodi plant o'r ysgol

Mae **61%**

yn meddwl y dylid lleihau terfynau cyflymder ar ffyrdd lleol



Hoffai trigolion weld mwy o wariant gan y llywodraeth ar drafniadaeth gyhoeddus, beicio a cherdded

73% Trafniadaeth gyhoeddus

62% Beicio

58% Cerdded

32% Gyrru

Rhian Carbis,
Pennaeth



Gall rhieni weld y buddion iechyd [o feicio] fel teulu yn syth, ac mae plant yn dweud eu bod yn mwynhau llawer mwy ar eu siwrne.



[†]Glasgow Centre for Population Health, 2013. Adolygiad: *The built environment and health: an evidence review.*

^{††}Sustrans, 2012. Adroddiad *Locked Out.*

Gwireddu'r buddion

Y rhesymau pam mae pawb yn elwa pan fo mwy o bobl yn beicio

Mae trigolion Caerdydd yn beicio 5 gwaith o amgylch y byd bob dydd

Mae
66%



yn cytuno y byddai mwy o feicio yn gwneud Caerdydd yn well lle i fyw a gweithio ynddo

16.5 miliwn o deithiau

wedi'u gwneud ar feic yng Nghaerdydd yn y flwyddyn ddiwethaf, sy'n gyfanswm o

48 miliwn o filltiroedd

= 130,000 o filltiroedd y dydd

Teithiau blynyddol yn ôl eu pwrpas*

Hamddena: 2,500,000

15%

Gwaith: 6,300,000

38%

Siopa, busnes personol a theithiau cymdeithasol: 5,500,000

33%

Ysgol, coleg neu brifysgol (oedolion): 1,600,000

10%

Ysgol (plant): 680,000

4%

Mae beicio'n cadw Caerdydd yn symud

Dengys astudiaethau bod beicio'n rhyddhau lle ar y ffordd o'i gymharu â gyrru.**

Mae hyn yn helpu i gadw Caerdydd yn symud i holl ddefnyddwyr y ffordd.

Gwneir 14,000 o deithiau beic dwyffordd

yn ddyddiol yng Nghaerdydd gan bobl a allai fod wedi defnyddio car

Pe bai'r holl geir hyn mewn tagfa draffig, byddai'r ciw yn

43 milltir o hyd

sy'n cyfateb i'r pellter rhwng Caerdydd ac Abertawe




*Mae teithiau hamdden yn cynnwys oedolion a phlant. Dangosir teithiau addysg ar gyfer oedolion a phlant ar wahân.

Mae'r holl deithiau eraill yn cyfrif oedolion yn unig.

**Litman, 2017. Adroddiad *Evaluating Transportation Land Use Impacts*. Wedi'i seilio ar Eric Bruun a Vuchic, 1995. *The Time-Area Concept*.

Mae beicio'n datgloi buddion iechyd i bawb

Mae beicio yng Nghaerdydd yn atal 123 o gyflyrau iechyd hirdymor bob blwyddyn



Mae 'cyflyrau eraill' yn cynnwys diabetes math 2, strôc, canser y fron, canser y colon a'r rhefr.

Mae hyn yn arbed

£830,000 y flwyddyn

i'r GIG yng Nghaerdydd



sy'n gyfatebol i gost

28,000 o apwyntiadau meddyg teulu

Wedi'i seilio ar yr adnodd MOVES gan Sport England sy'n dangos yr enillion iechyd ar fuddsoddiad ar gyfer chwaraeon a gweithgaredd corfforol

Yng Nghaerdydd, mae'r buddion a ddaw o weithgaredd corfforol trwy feicio'n

atal 13 o farwolaethau cynnar y flwyddyn

pennir gwerth i hyn o

£46 miliwn†

Mae mwy o bobl yn beicio yn arwain at wella ansawdd yr aer:

Arbedir **14,000 kg o NO_x** a

1,900 kg o ronynnau (PM₁₀ a PM_{2.5}) bob blwyddyn

Yng Nghaerdydd bob blwyddyn mae 143 o farwolaethau cynnar ymhlith oedolion lle bo cysylltiad tymor hir â llygredd aer (PM2.5) wedi'i bennu fel ffactor cyfrannol.

Seiliwyd ar Public Health England, 2014. Adroddiad *Estimating Local Mortality Burdens associated with Particulate Air Pollution* (ar gyfer y DU gyfan). Oedolion = 25 mlwydd oed+.

Mae beicio'n helpu i leihau effaith yr argyfwng hinsawdd

Arbedwyd **6,500 o dunelli** o allyriadau nwyon tŷ gwydr (carbon deuocsid, methan ac ocsid nitraidd) yn flynyddol, sy'n cyfateb i ôl-troed carbon

16,000 o bobl yn hedfan o

Gaerdydd i Tenerife



Mae trafndiaeth bellach yn cyfrif am 15% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru, a cheir petrol a diesel yw'r prif ffynonellau.

Disgynnodd allyriadau cyffredinol Cymru rhwng 1990 a 2017 gan 25%; fodd bynnag, prin y newidiodd allyriadau trafndiaeth (gostyngodd gan 3%).

StatsCymru: Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn ôl Blwyddyn, 2019, Llywodraeth Cymru.

Mae beicio'n fuddiol i drigolion a'r economi leol yng Nghaerdydd



95c

yw'r budd net i unigolion ac i gymdeithas am bob milltir o deithio ar feic yn hytrach na gyrru cerbyd

Seilir y ffigurau hyn ar bennu cost a gwerth ariannol i fanteision ac anfanteision gyrru a beicio. Mae hyn yn cynnwys amser teithio, costau rhedeg y cerbyd, costau meddygol a dyddiau o golli'r gwaith, tagfeydd, isadeiledd, ansawdd aer lleol, sŵn, nwyon tŷ gwydr a threthi.

Mae hyn yn gyfanswm o:

£21.4 miliwn

y flwyddyn gan bobl sy'n berchen car ond yn dewis beicio fel dull teithio, neu

£33.7 miliwn

y flwyddyn o'r holl deithiau a wneir ar feic



†Seiliwyd ar adnodd WHO/Europe Health Economic Assessment Tool (HEAT), sy'n galluogi asesiad economaidd o fuddion iechyd beicio trwy amcangyfrif gwerth y gostyngiad mewn marwolaethau sy'n deillio o symiau penodol o feicio.

Cyfranogaeth mewn beicio


Pwy sy'n beicio a pha mor aml?

Nid yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd yn beicio ar hyn o bryd

Er bod llawer o bobl yn beicio yng Nghaerdydd, mae'r lefel o gyfranogaeth yn llawer is nag ydyw ar gyfer dulliau teithio eraill.

Pan fo dinasoedd yn cael eu dylunio i wneud beicio'n fwy deniadol na ffurfiau eraill o deithio, gall arwain at gyfrangoeth uchel. Er enghraifft, mae **29%** o drigolion Caergrawnt Fwyaf yn beicio mwy na phum gwaith yr wythnos.*

Y trigolion sy'n defnyddio'r dulliau teithio canlynol bum niwrnod yr wythnos neu fwy yng Nghaerdydd



Mae **88%** o drigolion Caerdydd yn cerdded o leiaf unwaith yr wythnos


Mae **22%** o'r trigolion yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos

Er ei bod yn glir bod angen gwneud gwelliannau i'r amgylchedd cerdded, o leiaf mae rhwydwaith o fannau wedi'u gwarchod yn bodoli – palmentydd.

Mewn cymhariaeth, dim ond os ydych chi'n fodlon rhannu lle ar y ffordd gyda cherbydau modur y mae modd beicio i'r rhan fwyaf o gyrchfannau cyffredin.



Pa mor aml mae trigolion yn beicio a cherdded?



*Bike Life Greater Cambridge 2019.

**Teithio fel gyrrwr neu deithiwr.

Pa mor gynhwysol yw beicio?

Yng Nghaerdydd, nid yw cyfranogiad mewn beicio o blith grwpiau demograffig gwahanol yn gyfartal.


Gall rhwystrau i feicio fod yn fwy amlwg ar gyfer grwpiau demograffig gwahanol, fodd bynnag dengys dinasoedd gyda chyfraddau uchel o feicio nad yw hyn yn wir bob amser.

Gwneir 55% o'r holl deithiau beicio yn yr Iseldiroedd gan fenywod. Yn ychwanegol, mae pobl hŷn na 65 yn gwneud 24% o'u teithiau ar feic, sy'n uwch na'r ganran a adroddir ar gyfer unrhyw grŵp oedran arall dros 26 mlwydd oed.


Pucher a Buehler, 2008. Adroddiad: *Making Cycling Irresistible Transport Reviews, Vol. 28.*

Y gyfran o drigolion Caerdydd mewn grwpiau demograffig gwahanol sy'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos


Rhywedd




Ethnigrwydd



Anabledd



Oedran



Jane Colley



'Nôl yn 2014, fe wnes i deipio "rhentu beic yng Nghaerdydd" yn fy nghyfrifiadur, ac fe ddois o hyd i Pedal Power, elusen yng Nghaerdydd sy'n annog ac yn galluogi pobl o bob oed a phob gallu i brofi'r manteision a ddaw o feicio.

Fe wnes i drefnu i logi beic, a mwynheais reid arbennig ar hyd Llwybr Taf, ond fe ddisgynnais i dair gwaith. Roedd fy nghytwysedd yn fy ngadael i lawr.

Roeddwn i'n benderfynol nad oedd fy nghytwysedd am fy atal rhag beicio, felly mi ddechreuais ddefnyddio beiciau tair olwyn a dydw i heb edrych yn ôl. Yn 2017, roeddwn i'n cael trafferth gyda chryd cymalau yn fy mhen glin ac unwaith eto, roedd Pedal Power yno i fy helpu. Fe wnaethon nhw awgrymu beiciau tair olwyn lled-orweddol, ac rwy'n mwynhau "bywyd ar dair olwyn" unwaith eto.

Rwy'n dibynnu'n helaeth ar amynedd ac arbenigedd y staff a'r gwirfoddolwyr gwych. Ni fuaswn i fyth yn gallu fforddio un o'r beiciau tair olwyn arbennig hyn, maen nhw mor ddrud, felly mae Pedal Power wirioneddol yn un o hanfodion bywyd i mi.





Anghydraddoldeb cymdeithasol a symudedd

Potensial beicio i helpu pobl


Mae symudedd yn ymwneud â chael mynediad at anghenion sylfaenol, bob dydd sy'n helpu pobl i fyw'n dda

Mae symudedd yn galluogi pobl i gael mynediad at swyddi, addysg, bwyd ffres, mannau gwyrdd a gofal iechyd. Mae symudedd hefyd yn galluogi pobl i weld eu teulu, cymryd rhan yn eu cymuned a chael llais yn y gymuned.

Ac eto, nid yw symudedd yn gyfartal nac yn gynhwysol i lawer o bobl yn y Deyrnas Unedig.

Mae pobl sy'n byw heb gar yn gallu cael anhawster cyrraedd gwasanaethau dydd i ddydd mewn ardaloedd ble mae dewisiadau teithio eraill yn brin

Cyfran o drigolion ym mhob grŵp economaidd-gymdeithasol* nad oes â char neu fan ar eu haelwyd



Mae **25%** o boblogaeth Caerdydd yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E. Mae hynny'n tua **91,000** o bobl i gyd.

Galwedigaethau lled-grefftus a gwaith llaw heb sgiliau, pobl sy'n rhedeg eu cartref a phobl nad ydynt mewn gwaith yw D a E.

Mae llai o fwynderau lleol a darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus salach ar gael i lawer o gymdogaethau difreintiedig.** Mae'r cyfuniad hwn yn golygu y gallai gwasanaethau dydd i ddydd fod yn anoddach i'w cyrraedd. Gallai beicio eu gwneud yn fwy hygyrch.

Hoffai nifer o drigolion o grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E ddechrau beicio

Hoffai **26%** o drigolion yng ngrwpiau D ac E yng Nghaerdydd ddechrau beicio


Mae **12%** o drigolion yng ngrwpiau D ac E yng Nghaerdydd yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos ar hyn o bryd

Mewn cymhariaeth, mae **26%** o'r trigolion o grwpiau A a B yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos


*Dosbarthiad yw grŵp economaidd-gymdeithasol, sydd wedi'i seilio ar alwedigaeth. Fe'i cedwir gan y Market Research Society.
**Glasgow Centre for Population Health, 2013. Adroddiad: *The built environment and health: an evidence review.*

Fodd bynnag, mae nifer o rwystrau sy'n atal pobl o'r grwpiau hyn feicio

Rhesymau nad yw trigolion Caerdydd yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E yn beicio neu'r rheswm dros feicio'n llai aml



Y gyfran o drigolion yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol sy'n meddwl nad yw beicio ar gyfer pobl fel nhw



Gall bod yn 'feiciwr' gael ei gysylltu â math arbennig o berson a nodweddion.

Mae gan feicio'r potensial i leihau eithrio cymdeithasol ac economaidd

Gallai beicio helpu llawer o drigolion i gyrraedd cyflogaeth, gofal iechyd a gwasanaethau dydd i ddydd, ond dim ond os gwnawn ni i feicio fod yn ddeniadol, yn ddiogel ac yn rhwydd i bawb.

Ar gyflymdra hamddenol, gallwch feicio dros 4 milltir mewn 25 munud. Felly, gall beicio fod yn ddelfrydol ar gyfer bywyd trefol, yn enwedig fel opsiwn i bobl nad oes car ganddynt ac sy'n byw yn bellach oddi wrth drafndiaeth gyhoeddus.

Pellter beicio 25 munud o Heol Eglwys Fair

Er enghraifft, byddai beicio'n galluogi 240,000 o bobl i deithio o'u cartref i Heol Eglwys Fair mewn llai na 25 munud, yn cynnwys 61,000 o bobl o ardaloedd sydd ymysg y 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.



Alice Evans

Wnes i ddim ond dysgu beicio go iawn tua 6 mis yn ôl, a nawr rwy'n beicio bron bob dydd. Fe wnes i ddysgu pan oeddwn i'n blentyn, ond fe gwmpais i, colli fy hyder a wnes i ddim beicio wedyn am flynyddoedd. Pan ddaeth Nextbike i Gaerdydd, roeddwn i'n meddwl y buasai'n wirion i mi beidio manteisio arno, felly fe rois i gynnig arno.

Fel arfer, buasai'n cymryd awr i mi gerdded i'r gwaith, ond pan wyf fi'n beicio, dim ond tua 25 munud mae'n ei gymryd.

Os rwy'n rhedeg yn hwyr, does dim rhaid imi dalu £2 am docyn bws! Yn hytrach, gallaf dalu £5 am fis o ddefnyddio Nextbike, sy'n wych gan fy mod yn eu defnyddio hyd at ddwywaith y diwrnod. Buasai'n ddelfrydol cael rhagor o orsafoedd Nextbike o gwmpas y ddinas (nid canol y ddinas yn unig) er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch i bobl sy'n methu gyrru neu sydd bob amser yn talu i ddefnyddio'r bws.

*Wedi'i addasu o blatfform TravelTime, mapiau amser teithio (siapiau isocron): [qgis.traveltimeplatform.com](https://www.qgis.traveltimeplatform.com). Mae'n defnyddio cyflymdra beicio o 10 mya ac yn rhoi ystyriaeth i'r math o lwybrau beicio a chyffyrdd, ond nid yw'n cynnwys ellydd.

Rhwystrau

Beth sy'n atal trigolion Caerdydd rhag beicio mwy?


Mae **43%** yn meddwl bod Caerdydd yn lle da i feicio. Ond mae llawer o rwystrau i feicio yno.

Rhesymau nad yw rhai trigolion yn beicio, neu'r rhesymau eu bod yn beicio'n llai aml



Diogelwch yw'r rhwystr mwyaf sydd yn atal mwy o bobl rhag beicio



Pa ddulliau teithio y mae trigolion yn credu y mae angen gwella diogelwch ar ei gyfer?



Mae **29%** o'r trigolion yn meddwl bod diogelwch beicio yng Nghaerdydd yn dda

Mae **17%** yn meddwl bod diogelwch beicio i blant yng Nghaerdydd yn dda

Pa faterion y mae trigolion yn meddwl sy'n bwysig ar gyfer gwella diogelwch beicio yng Nghaerdydd?




*Ac eithrio traffyrdd.

**Diffinnir y rhain fel llwybrau sy'n ddi-draffig ac ar wahân i ffyrdd, llwybrau beicio ar hyd ffyrdd sydd wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr, a llwybrau gydag arwyddion ar hyd strydoedd distawach lle mae llai o draffig.

Mae storio beiciau'n ddiogel yn bwysig yn y cartref ac allan o gwmpas y ddinas

Lladrad beiciau wedi'i riportio



Cafodd **1,489** o ladradau beiciau eu riportio yng Nghaerdydd yn 2018/19.


Am bob **120** o bobl sy'n berchen beic oedolyn yng Nghaerdydd, cafodd 1 lladrad beic ei riportio yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae un lle parcio cyhoeddus ar gyfer beic i bob **60** o bobl sy'n beicio yng Nghaerdydd.

Mae **15%** o drigolion yn meddwl bod diogelwch parcio beiciau cyhoeddus yn dda.

Gall diogelwch fod yn risg gartref hefyd, yn enwedig mewn fflatiau lle mae man storio tu fewn yr eiddo'n gallu bod yn anos.

Sylwer y câi ymatebwyr yr arolwg ddewis mwy nag un opsiwn



Elin Edwards



Fe wnes i droi'n feiciwr dyddiol drwy hap a damwain, dechrau am resymau ymarferol wnes i a dweud y gwir – roeddwn i'n gallu cyrraedd lleoedd yn llawer cynt ac roedd yn caniatáu i mi daro ychydig mwy ar y botwm 'snooze' yn y boreau!

Rwy'n gweithio yng nghanol y ddinas ac ers symud i The Mill, datblygiad cartrefi newydd yng Nghanton, rwyf wedi bod yn beicio bron bob dydd. Mae The Mill yn sicr yn gwneud beicio'n opsiwn hawdd gan ei fod yn cefnu ar Llwybr Trelai, llwybr ardderchog sy'n mynd â chi'r holl ffordd i Fae Caerdydd gan osgoi'r holl draffig.

Rwy'n gweithio i Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall ac ers imi fod yn gweithio yma, rwy'n sicr wedi dod yn feiciwr mwy diogel a mwy ystyriol. Yn aml, ni all pobl sydd yn/wedi colli'u golwg weld neu glywed beiciau'n dod, felly mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar ôl cerddwyr sy'n agored i niwed.

Mae gennym bocedi o leoedd gwych i feicio ar hyd a lled Caerdydd, ond nid yw rhannu'r lle gyda cherddwyr neu geir yn ddelfrydol. Gwyddwn nad yw nifer o bobl yn teimlo'n hyderus yn beicio mor agos at draffig. Gobeithiaf yn wir y byddwn yn dechrau gweld mwy o lwybrau beiciau penodedig sy'n golygu y bydd holl ddefnyddwyr y ffyrdd yn teimlo'n ddiogel.

Atebion

Beth fyddai'n helpu trigolion Caerdydd i feicio mwy?


Mae llawer o drigolion Caerdydd eisiau beicio

Mae **56%** o drigolion yn teimlo y dylent feicio mwy

Sut mae trigolion yn gweld eu hunain wrth ystyried beicio?

Ddim yn beicio a ddim eisiau gwneud: **33%**

Ddim yn beicio ond hoffent wneud: **27%**



Mae trigolion eisiau gwell isadeiledd beicio

Pa gyfran o drigolion fyddai'n gweld gwelliannau isadeiledd yn ddefnyddiol er mwyn beicio mwy?

83%	80%	75%	68%
Mwy o lwybrau beicio di-draffig oddi wrth y ffyrdd, e.e. trwy barciau neu ar hyd ymyl afonydd a chamlesi	Mwy o lwybrau beicio ar hyd ffyrdd sydd wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr	Mwy o lwybrau beicio lleol gydag arwyddion ar hyd strydoedd distawach	Gwell cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus
Mae gan Gaerdydd 37 o filltiroedd o lwybrau beicio di-draffig sydd oddi wrth y ffyrdd	3 milltir o lwybrau beicio sydd wedi'u gwahanu'n ffisegol rhag traffig a cherddwyr	0.4 milltir o lwybrau beicio gydag arwyddion ar strydoedd distawach	Mae un lle parcio ar gyfer beiciau i bob 106 teithiwr yng ngorsaf rheilffordd Caerdydd
	Fodd bynnag, dim ond 13% o gartrefi sydd o fewn 125 metr i'r lwybrau hyn		

Mae **73%** o drigolion yn cefnogi adeiladu mwy o lwybrau beicio ar y ffordd wedi'u gwarchod, hyd yn oed pan fyddai hyn yn golygu llai o le i draffig arall ar y ffordd*

Mae gan ffyrdd A a B lefelau uwch o draffig felly ar y ffyrdd hynny mae'r gwahanu ffisegol yn fwyaf defnyddiol ar gyfer beicio. Mae cyfanswm o **87 o filltiroedd** o'r ffyrdd hyn yn bodoli yng Nghaerdydd.

*Sylwer fod y cwestiwn hwn wedi newid ers 2017 o 'gallai olygu' i 'byddai'n golygu'. Gweler methodoleg Bywyd Beicio am fanylion pellach.

Mae trigolion eisiau mwy o gefnogaeth i feicio

Pa gyfran o drigolion fyddai'n gweld mwy o gefnogaeth yn ddefnyddiol er mwyn beicio mwy?

58%	47%	47%	36%	21%
Gwelliannau i gynllun rhannu beiciau cyhoeddus eich tref neu ddinas leol	Cyrsiau hyfforddiant beicio a theithiau beicio cymdeithasol	Mynediad at feic trydan	Mynediad at feic cargo	Mynediad at feic wedi'i addasu (e.e. beic tair olwyn neu feic gorweddol)

Mae gan **60%** o bobl fynediad at feic pedal oedolyn

Dechreuodd cynllun rhannu beiciau Caerdydd yn gynnar yn 2018 ac fe'i gweithredir gan Nextbike. Mae'n cynnig mynediad hwylus at feiciau i bobl nad ydynt eisiau prynu beic eu hunain, neu sydd heb ddigon o le i gadw un.

403,069

o deithiau'r flwyddyn†

72

o safleoedd rhannu beiciau†

650

o feiciau ar gael i'w defnyddio†

Mae **44%**

o drigolion yn meddwl bod cynllun beiciau cyhoeddus Caerdydd yn dda

12%

o drigolion yn meddwl ei fod yn ddrwg



Rhian Carbis, Pennaeth, Ysgol Hamadryad



Mae Ysgol Hamadryad yn un flaengar yn nhermau teithiau iach. Mae holl gymuned yr ysgol yn cael ei hannog i deithio i'r ysgol naill ai ar droed, ar sgwter neu ar feic. Mae'r rhan fwyaf o'n teuluoedd yn beicio i'r ysgol yn ddyddiol, yr ieuengaf yn dair oed, a'r hynaf yn ddim ond saith oed.

Mae nifer sylweddol o deuluoedd yn beicio ym mhob tywydd, ac mae hyn yn rhoi manteision lu i'r plant, nid yn unig o ran y buddion iechyd tymor byr, ond hefyd o ran datblygu sgiliau eraill, fel dyfalbarhad a gwytnwch. Fel ysgol, rydym yn sicrhau bod hyfforddiant beicio a sgwtera'n cael ei gynnig pan fo plant yn eu blwyddyn gyntaf o addysg statudol. Rydym yn cyfeirio ein rhieni ymlaen at hyfforddiant ychwanegol yn y gymuned leol ac yn y ddinas.

Mae'r ymateb gan rieni wedi bod yn hynod o gadarnhaol. Gall oedolion weld y buddion iechyd tymor byr i'r teulu, ac mae'r plant yn dweud eu bod yn mwynhau llawer mwy ar eu taith gan eu bod yn gallu gweld a gwerthfawrogi natur yn eu cymuned leol.




†Data llogi beiciau Nextbike ar gyfer Gorffennaf 2018–Mehefin 2019.

Mae trigolion yn meddwl y byddai llai o gerbydau modur yn helpu i gynyddu beicio a gwneud eu hardal yn well lle

Mae anaf ar feic yn cael ei riportio ar gyfer un o bob **410,000 o filltiroedd** sy'n cael ei feicio o gwmpas Caerdydd. Er bod anafiadau'n gymharol brin, mae rhannu'r ffordd gyda cherbydau modur yn anneniadol i'r rhan fwyaf o bobl.

Pa gyfran o drigolion fyddai'n gweld mesurau rheoli traffig yn ddefnyddiol er mwyn beicio mwy?




Mae **58%** o drigolion yn meddwl bod gormod o bobl yn gyrru yn eu cymdogaeth

Mae **18%** o holl strydoedd Caerdydd yn 20mya* (wedi codi o 4% yn 2017)




Y gyfran o drigolion sy'n cefnogi mesurau i wneud lleoedd yn well ar gyfer pobl




Mae trigolion eisiau mwy o fuddsoddiad mewn trafndiaeth gyhoeddus, beicio a cherdded

Y gyfran o drigolion a hoffai weld mwy o wario gan y llywodraeth ar wahanol fathau o drafnidiaeth



Mae cefnogaeth gyhoeddus yn bodoli ar gyfer cyflwyno mesurau polisi y gellid eu defnyddio i helpu i ariannu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Y gyfran o drigolion sy'n cefnogi ac yn gwrthwynebu mesurau rheoli traffig



Mae buddsoddi mewn darpariaeth ar gyfer beicio yn rhoi gwerth da am arian, ac yn rhoi mwy o enillion na llawer o ddewisiadau amgen. Er enghraifft, mae'r rhaglen English Cycling Cities Ambition Grant gwerth £150 miliwn, yn creu buddion o tua £5.50 am bob £1 a gaiff ei wario. Mae hyn yn nodweddiadol o gynlluniau beicio yn y Deyrnas Unedig ac yn cymharu'n ffafriol â'r rhan fwyaf o gynlluniau trafndiaeth eraill.



*Ac eithrio traffyrdd.



Gwella beicio

Sut mae Caerdydd wedi bod yn datblygu beicio?

Mae Beicffordd strategol cyntaf Caerdydd wedi cael ei adeiladu, yn darparu llwybr beicio 800 metr o hyd wedi'i wahanu â chwrw

Mae'r Llwybr Taf ar y Taff Embankment yn Grangetown wedi cael ei ailddatblygu'n gyfan gwbl i greu stryd feiciau gyntaf Cymru

Mae Caerdydd wedi gweld cynnydd mawr mewn buddsoddiad beicio dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn wedi arwain at gwblhau llwybrau beicio newydd ac wedi'u gwella yn y ddinas a nifer o fentrau i annog rhagor o bobl i feicio.

Beicffyrdd Caerdydd

Mae Cynllun Beicffordd gyntaf Caerdydd wedi cael ei adeiladu, yn darparu llwybr beicio wedi'i warchod 800 metr o hyd ar Blas Sant Andreas a Heol Senghennydd, a llenwi bwllch sydd wedi bodoli ers tro byd i feicwyr i gyrraedd Teras Cathays.

Stryd feiciau gyntaf Cymru

Mae'r Llwybr Taf ar y Taff Embankment yn Grangetown wedi cael ei ailddatblygu'n gyfan gwbl i greu stryd feiciau gyntaf Cymru. Mae mesurau yn cynnwys tynnu'r lleoedd parcio, a gwneud newidiadau fel ychwanegu llain gydag arwyneb gwahanol lawr canol y ffordd a chreu cyffyrdd ar fyrddau arafu, wedi arafu traffig, wedi anghymell goddiweddyd ac wedi pwysleisio blaenoriaeth i feicwyr.

Lonydd beicio wedi'u hamddiffyn

Ar Heol y Gogledd, mae'r llwybr presennol wedi cael ei uwchraddio, gan drawsnewid lôn feicio gul wedi'i phaentio a oedd yn rhedeg drwy faes parcio yn llwybr beicio 3–4 metr o led wedi'i warchod, gyda blaenoriaeth croesi ar ffyrdd ochr. Darparodd y cyllid o ddatblygiadau cyfagos hefyd groesfannau ar gyfer cerddwyr a beicwyr ar gyffordd Heol y Gogledd a Heol Corbett.

Mae cyfuniad o flociau rwber a physt sy'n gwahanu beiciau a cherbydau modur wedi cael eu treialu ar Heol Maes y Coed, sy'n gwarchod mwy ar feicwyr na lonydd beicio wedi'u paentio.



Signalau beic ar lefel isel

Rhoddodd cynllun i osod croesfannau cerddwyr ar gyffordd Heol y Gadeirlan, Clòs Sophia a Stryd Talbot gyfle i wneud gwelliannau beicio hefyd. Roedd y gwelliannau hyn yn cynnwys y signalau beicio lefel isel cyntaf yng Nghaerdydd, sy'n rhoi mantais o bedair eiliad i feicwyr wrth gychwyn pan fo'r goleuadau'n troi, sy'n lleihau anghydfod rhwng beiciau a cheir.

20mya ar strydoedd preswyl

Mae cyflwyno terfynau cyflymdra o 20mya ar strydoedd preswyl yn parhau yng Nghaerdydd, gyda nifer o strydoedd yn Riverside, Adamsdown, Plasnewydd, y Sblot a Grangetown nawr yn defnyddio'r terfyn newydd.

Mannau parcio beiciau

Mae parcio ar y stryd ar gyfer beiciau wedi cynyddu wedi i standiau Sheffield newydd gael eu gosod mewn lleoliadau allweddol ar hyd canol y ddinas. Mae cynnig 'Parcio'ch Beic' o bedwar stand Sheffield ar gael i holl fusnesau a sefydliadau Caerdydd.

Nextbike

Mae'r cynllun llogi beiciau ar y stryd a ddarperir gan Nextbike wedi profi i fod yn un o'r cynlluniau mwyaf llwyddiannus yn y Deyrnas Unedig, ac yn cael eu defnyddio mwy na 10,000 o weithiau'r wythnos. Mae'r cynllun wedi ehangu erbyn hyn i ddarparu 1,000 o feiciau mewn gorsafoedd ar hyd y ddinas.

Diwrnod Di-gar a Let's Ride

Mae Diwrnod Di-gar /HSBC UK Let's Ride, mewn partneriaeth â British Cycling a Beicio Cymru, wedi dod yn rhan flynyddol o raglen ddigwyddiadau Caerdydd.

Caewyd ffyrdd yng nghanol y ddinas i greu lle i 7,000 o bobl ddathlu cerdded a beicio mewn awyrgylch heb geir. Mae'r rhaglen Let's Ride yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd parhaus i annog pobl yng Nghaerdydd i dreulio amser ar eu beiciau, yn cynnwys llwyfan gymdeithasol ar-lein a theithiau beicio dan arweiniad.

Y Siarter Teithio'n Iach

Mae 14 o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, sy'n cyflogi cyfanswm o 33,000 o staff, wedi ymrwmo i gefnogi ac annog eu staff a'u hymwelwyr i ddefnyddio dulliau teithio iach, trwy gofrestru ar y Siarter Teithio'n Iach. Mae hyn yn cynnwys 14 o ymrwymadau sy'n cynnwys cynnig y cynllun beicio i'r gwaith i'w holl staff, darparu cawodydd a storffeydd diogel ar gyfer beiciau a hyrwyddo hyfforddiant beicio a chynnal a chadw am ddim.



Mae'r cynllun llogi beiciau ar y stryd a ddarperir gan Nextbike wedi profi'n un o'r cynlluniau mwyaf llwyddiannus yn y Deyrnas Unedig





Beicio tua'r dyfodol

Ein huchelgais a'r cynlluniau ar gyfer ei gwireddu

Targed ar gyfer 2026:

- **50%** o'r holl deithiau yn cael eu gwneud mewn moddau cynaliadwy (cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus)

Targedau ar gyfer 2030:

- **43%** o deithiau i'r gwaith yn cael eu gwneud trwy gerdded a beicio
- **33%** o deithiau i'r gwaith yn cael eu gwneud ar fws, trên a thram
- **25%** o deithiau i'r gwaith yn cael eu gwneud mewn car

Mae gan Gaerdydd weledigaeth fentrus ar gyfer newid yn y blynyddoedd nesaf. Mae ein gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer trafndiaeth yn cyflwyno cynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid y ffordd y mae pobl yn symud o gwmpas ein dinas, er mwyn wynebu heriau'r argyfwng hinsawdd, ansawdd yr aer a thwf y boblogaeth. Bydd cerdded a beicio wrth galon polisiau cynllunio, trafndiaeth a phriffyrdd, gan wneud cyfraniad pwysig i'r ddinas fel lle bywiog a deniadol i fyw a gweithio ynddo.

Yn dilyn cwblhau'r cynllun Beicffordd cyntaf ar Heol Senghennydd yn 2019, bydd Cyngor Caerdydd yn parhau gyda gweithredu fesul cam ar lwybrau Beicffordd strategol newydd ledled y ddinas. Bydd y Beicffyrdd yn darparu llwybrau o safon uchel, wedi'u gwarchod rhag cerbydau modur pan fo angen, yn cysylltu cymunedau â chyrchfannau pwysig yn cynnwys canol y ddinas, Bae Caerdydd, Ysbyty Prifysgol Cymru a Heol Casnewydd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddiweddarau llwybrau beicio presennol, yn cynnwys y Llwybr Taf a'r ddolen gyswllt o Heol y Gogledd i Heol Excelsior, ac mae cynlluniau i ledu a gwella rhannau o'r llwybrau hyn yn 2020.

Bydd dolen o lwybrau beicio o amgylch y ddinas yn cael ei chwblhau i gysylltu'r llwybrau Beicffordd â'i gilydd. Bydd rhwydwaith beicio diogel, wedi'i wahanu'n llwyr, o safon uchel wedi'i gwblhau erbyn 2026.

Bydd menter "strydoedd ar gyfer iechyd" wedi cael ei gyflwyno ar draws y ddinas, i alluogi pob stryd i gael ei hadennill fel man cyhoeddus mwy hygrych i bawb, yn enwedig pobl gyda llai o symudedd a phlant. Bydd ein strydoedd yn troi'n fannau iach, gwyrdd, diogel a chroesawgar i blant gyda chroesfannau cerddwyr o safon uchel, bioamrywiaeth, planhigion a systemau draenio trefol cynaliadwy (sustainable urban drainage systems/SUDS).

Byddwn yn datblygu Cynlluniau Teithio Llesol a llwybrau cerdded a beicio hygrych ar gyfer pob ysgol trwy weithio gyda phlant, athrawon, rhieni a llywodraethwyr i hyrwyddo cerdded, sgwtera a beicio i'r ysgol ac adref.

Mae cynllun peilot o gau strydoedd, dros dro ac am amseroedd cyfyngedig, y tu allan i nifer o ysgolion yn y ddinas yn cael ei dreialu fel rhan o'r rhaglen Strydoedd Ysgol. Os bydd yn llwyddiannus, caiff ei gyflwyno i ysgolion eraill er mwyn mynd i'r afael â pharcio gwrthgymdeithasol a phroblemau traffig cyffredinol o amgylch amseroedd danfon a chyrchu plant o'r ysgol ac annog teithio llesol.

Rydym wedi cyflwyno terfynau 20mya ar y rhan fwyaf o strydoedd preswyl de'r ddinas, yn codi'r nifer o derfynau 20mya o 4% o strydoedd y ddinas yn 2017 i 18% yn 2019. Er mwyn normaleiddio cyflymdra is a chreu amgylchedd mwy cyfforddus ar gyfer cerdded a beicio ar draws y ddinas rydym yn ymroddedig i wneud terfyn cyflymdra Caerdydd yn 20mya yn ddiodyn.

Nodiadau ar derminoleg a methodoleg:

Cynhaliwyd yr arolwg agweddau rhwng Ebrill a Gorffennaf 2019 gan y mudiad ymchwil cymdeithasol annibynnol NatCen.

Mae'r arolwg yn gynrychioladol o holl drigolion Caerdydd, nid y rhai sy'n beicio'n unig. Mae newidiadau i fethodoleg a chwestiynau'r arolwg, ac i'r model sy'n amcangyfrif y teithiau beicio a wnaed, yn golygu nad yw ffigurau 2019 yn gymaradwy'n uniongyrchol â'r ffigurau a adroddwyd arnynt yn 2017. Gwnaethpwyd y newidiadau hyn i sicrhau y bydd methodoleg Bywyd Beicio'n addas ar gyfer y dyfodol.

Mae ffigurau wedi cael eu talfyrru drwy'r adroddiad benbaladr.

Ceir mwy o wybodaeth a methodoleg fanwl yma:

www.sustrans.org.uk/bike-life

Sustrans yw'r elusen sy'n ei gwneud yn haws i bobl deithio ar droed ac ar feic.

Rydym yn cysylltu pobl a llefydd, yn creu cymunedau bywiog, yn trawsnewid y daith i'r ysgol ac yn hwyluso taith hapusach a mwy iach i'r gwaith. Ymunwch â ni ar ein siwrne. www.sustrans.org.uk

Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban)

© Sustrans Mawrth 2020
© Ffotograffau: Jonathan Bewley/photoJB



Argraffwyd gyda 100% ynni adnewyddadwy gan ddefnyddio proses ddi-alcohol ac inciau llysieuol

Ariennir Bywyd Beicio Caerdydd gan y Freshfield Foundation a Chyngor Caerdydd. Cydlynir y prosiect gan Sustrans.

